


Gwnewch gais i fod yn **Llysgennad Ieuenctid** WWF-UK a’n helpu ni i adfywio ein planed!

# CROESO

**Yn WWF rydym wedi ymrwymo i gynnwys pobl ifanc, fel amddiffynwyr ein planed yn y dyfodol, ym mhob agwedd ar ein gwaith.** Ein cenhadaeth yw mynd i'r afael â newid hinsawdd ac adfer natur, ac i wneud hynny mae arnom angen penderfynwyr y dyfodol i'n cefnogi ni. Drwy weithio gyda phobl ifanc, gallwn eu helpu nhw i ddysgu am natur a'i mwynhau, eu grymuso i ddefnyddio'u lleisiau i'w hamddiffyn, a'u cynnwys nhw yn ein gwaith cadwraeth, polisi ac ymgyrchu yn y dyfodol er mwyn sicrhau ein bod ni'n mynd i'r afael â'r heriau a wynebwn yn effeithiol.

Mae ein rhaglen Llysgenhadon Ieuenctid cenedlaethol yn rhoi cyfle i bobl ifanc fod yn rhan o'n prosiectau a'n hymgyrchoedd – trwy waith eirioli, datblygu sgiliau newydd, rhwydweithio a chydweithredu.

Rydym yn gyffrous i recriwtio hyd at ddau berson 13–17 oed i ymuno a'r rhaglen. Nid oes arnoch angen profiad blaenorol i ymgeisio – byddwn yn rhoi i chi'r holl gymorth sydd ei angen arnoch i gyflawni'r rôl.

**Gwnewch gais – edrychwn ymlaen at glywed gennych!**

**Tanya Steele CBE**
Prif Swyddog
Gweithredol, WWF



© Christian Loader / WWF-UK

# PWY YDYN NI A BETH YDYN NI'N EI WNEUD



© Terry Whittaker / 2020VISION / naturepl.com / WWF

**WWF yw sefydliad cadwraethol annibynnol mwyaf blaenllaw'r byd. Rydyn ni'n sicrhau y bydd pobl a natur yn ffynnu gyda'i gilydd am genedlaethau i ddod.**

Rydyn ni yn WWF mewn sefyllfa unigryw i adfywio'n byd. Rydyn ni wedi bod yn amddiffyn rhyfeddodau natur ers dros 60 o flynyddoedd. Ac yn awr rydyn ni'n arwain y ffordd nid yn unig i amddiffyn ein byd naturiol ond i'w adfer hefyd. Rydyn ni'n gweithio'n fyd-eang gyda chymunedau, llywodraethau, cwmnïau ac eraill sydd â'r ewyllys i weithredu a thrawsnewid ein byd.

Ni oedd y sefydliad cyntaf i ddatblygu strategaeth yn seiliedig ar wyddoniaeth sy'n canolbwyntio ar y cysylltiadau rhwng bwyd, hinsawdd a cholli bioamrywiaeth, ac rydyn ni'n parhau i fod ar flaen y gad o ran yr ymagwedd hon. Rydyn ni'n mynd i'r afael â'r bygythiadau hyn mewn tair ffordd allweddol: osgoi newid hinsawdd peryglus, creu system fwyd cynaliadwy, ac adfer cynefinoedd a rhywogaethau dan fygythiad.



© WWF-UK



© Dreaming Fish Productions Limited / WWF-UK

Mae’r tîm Ymgysylltu Ieuenctid yn cynnwys Pennaeth Ymgysylltu Ieuenctid (Jack), Swyddog Datblygu Ieuenctid (Devon), ac Ymgyrchydd Ieuenctid (Maria). Rydyn ni’n falch iawn o’r ffordd mae’r rhaglen Llysgenhadon Ieuenctid wedi datblygu, ac mae wedi ffynnu’n rhaglen uchel ei barch o fewn WWF-UK ac yn allanol hefyd.

Cafodd y Llysgenhadon Ieuenctid effaith ar draws y sefydliad, er enghraifft trwy wneud penderfyniadau ynghylch cynnwys y cylchlythyr ieuenctid a anfonir at bobl ifanc ledled y DU a chydweithredu ar y dyluniad a rhannu’r pŵer i benderfynu ar gynnig aelodaeth newydd WWF sef WWF YTH.

# DYMA BETH OEDD GAN DDAU LYSGENNAD IEUENCTID I'W DDWEUD...


Eshan


Anusha

"Rydw i'n mwynhau gweithio gyda phobl ifanc eraill o'r un meddylfryd. Mae wedi bod yn gymuned gefnogol sydd wedi fy sbarduno i gadw i fynd, heb wynebu pwysau cyson i ymrwymo i unrhyw beth. Credaf y dylai pobl ifanc eraill wneud cais i helpu ein planed, ehangu ar eu set sgiliau, ac adeiladu ei rhwydwaith at y dyfodol."

**Eshan – Llysgennad Ieuenctid**

---

"Rydw i wrth fy modd i fod yn Llysgennad Ieuenctid WWF oherwydd mae'n rhoi cymaint o gyfleoedd ichi - o arhosiad preswyl i gyd-greu prosiectau, y cyfan gyda chymorth cymuned mor gefnogol (y Llysgenhadon Ieuenctid eraill a'r staff). Mae'n rôl mor foddhaus lle gallwch chi gael effaith gwirioneddol!"

**Anusha – Llysgennad Ieuenctid**

# BETH RYDYM YN EI GYNNIG




© Dreaming Fish Productions Limited / WWF-UK

**Rydym yn recriwtio hyd at ddau berson ifanc, rhwng 13–17 oed, i ymuno â'n rhaglen Llysgenhadon Ieuenctid am gyfnod o hyd at 3 mlynedd.**

Mae'r rhaglen Llysgenhadon Ieuenctid yn ymgysylltu â phobl ifanc sy'n angerddol dros ein byd, ac yn eu cefnogi i arwain, cyd-greu a gwneud penderfyniadau ar brosiectau ac ymgyrchoedd, datblygu sgiliau arweinyddiaeth, cymryd camau gweithredu ystyrlon, a chynrychioli WWF mewn digwyddiadau.

Mae Llysgenhadon Ieuenctid yn gweithio'n agos â WWF i godi ymwybyddiaeth, dylanwadu ar bolisi, creu ymgyrchoedd effeithiol, ac ysbrydoli eraill i weithredu i adfywio ein byd. Trwy weithdai, digwyddiadau a gwahanol brosiectau, nod y rhaglen yw cefnogi pobl ifanc i ddefnyddio eu lleisiau a gweithredu, a chreu cyfleoedd i bobl ifanc eraill wneud hynny hefyd.


Mae angen ichi fod yn frwdfrydig dros amddiffyn ein planed, ond does dim angen ichi fod â phrofiad blaenorol o fod yn wirfoddolwr cenedlaethol i ymgeisio, oherwydd  y byddwn yn rhoi hyfforddiant cynhwysfawr i'ch cefnogi chi, gan gynnwys:




**Pecyn hyfforddiant** a fydd yn eich helpu chi i ddatblygu'r sgiliau, hyder ac arbenigedd i berfformio yn y rôl hon, fel rhan o grŵp o bobl ifanc mewn rolau tebyg ledled y DU.



**Sesiwn archwilio strategaeth yn fanwl** – yn eich galluogi chi i ddysgu mwy am strategaeth WWF ac i glywed am y gwaith o'i datblygu.



**Cyfle mentora** gan un o'r Llysgenhadon Ieuenctid presennol, i'ch cefnogi chi i arfer â'r rôl.



**Sesiynau un-i-un gyda'r tîm Ymgysylltu Ieuenctid** i wirio'ch cynnydd a thrafod unrhyw gefnogaeth ychwanegol a allai fod ei hangen arnoch.



**Cyfleoedd i gysylltu** â phobl ifanc mewn rolau tebyg ar draws y sector.

Yn unol â chanllawiau'r Comisiwn Elusennau, swydd wirfoddol yw hon ac felly ni fyddwch yn cael eich talu am eich amser. Fodd bynnag, rydyn ni'n talu costau teithio a threuliau rhesymol yn unol â'n Polisi Treuliau Ieuenctid.

Rydym wedi ymrwymo i ddymchwel rhwystrau rhag gwirfoddoli, felly gall y polisi hwn hefyd dalu am unrhyw gostau data yr eir iddynt fel rhan o'ch rôl, ac os bydd angen, talu am gostau llogi unrhyw offer priodol i'ch galluogi chi i gymryd rhan lawn yn y rôl.

# BETH YDYN NI'N CHWILIO AMDANO



© Dreaming Fish Productions Limited / WWF-UK



© WWF-UK



© Dreaming Fish Productions Limited / WWF-UK

**Rydyn ni'n chwilio am dri unigolyn ifanc sy'n bodloni'r meini prawf canlynol:**

- Yn 13–17 oed ar ddyddiad cyflwyno'r cais.
- Yn byw yn y DU.
- Bod â'r angerdd i helpu adfywio ein byd a'r brwdfrydedd i ddysgu sut i gefnogi'r newid hwn trwy rôl gwirfoddolwr cenedlaethol.










**Rhaid i’r ymgeisydd(ymgeiswyr) llwyddiannus hefyd fod ag ymrwymiad cryf i werthoedd WWF sef dewrder, uniondeb, parch a chydweithredu, ac efallai’n meddu ar ddetholiad o’r sgiliau/rhinweddau canlynol:**

- ·Profiad o weithredu/defnyddio’i lais dros yr amgylchedd – boed hynny trwy ymgyrchoedd, prosiectau, digwyddiadau neu ddulliau eraill o ymgysylltu.
- Profiad o weithio mewn tîm a chydweithredu’n effeithiol – sut mae grwpiau o unigolion yn dod at ei gilydd i rannu syniadau creadigol ar gyfer prosiectau ac ymgyrchoedd.
- Dealltwriaeth o bwysigrwydd Tegwch, Amrywiaeth a Chynhwysiant – ymwybyddiaeth o’r anawsterau a wynebir gan y sector amgylcheddol a syniadau am sut y gellir mynd i’r afael â hwy.

# DISGRIFIAD RÔL

**Fel Llysgennad Ieuenctid, bydd disgwyl i chi:**

- Mynychu cyfarfod grŵp ar-lein bob mis, hyd at 1 awr.
- ·Mynychu 3–4 arhosiad preswyl yn bersonol bob blwyddyn (cynhelir y sesiynau ar draws y DU a thelir costau teithio a llety).
- ·Cymryd rhan mewn o leiaf un prosiect neu ymgyrch WWF bob blwyddyn ac yn ei grŵp llywio ieuenctid.
- Ymrwymo i gymryd rhan lawn yn yr hyfforddiant a ddarparwyd trwy gydol y rôl - gan gynnwys sesiynau hyfforddiant rhithiol ac unrhyw dasgau perthnasol tu hwnt iddynt.

Gwyddom fod pethau'n codi ac efallai na fyddwch yn gallu mynychu pob cyfarfod neu sesiwn, ond gofynnwn ichi wneud pob ymdrech i ddod a rhoi digon o rybudd inni os na fyddwch yn gallu dod am ba bynnag rheswm.



© Dreaming Fish Productions Limited / WWF-UK

**Fel Llysgennad Ieuenctid, byddwch yn cael ystod eang o gyfleoedd i gael effaith trwy:**

## YN FEWNOL

- Rhoi eich barn a'ch awgrymiadau ar gyfer gweithgareddau allweddol, gan gynnwys ymgyrchoedd a phrosiectau arfaethedig.
- Cyd-greu, arwain a chyflawni prosiectau mewn partneriaeth â WWF-UK.
- Gwneud penderfyniadau ar brosiectau'n seiliedig ar ieuenctid, a chyfrannu at y broses benderfynu trwy ymgynghori ar gyfer mwy o brosiectau â chynulleidfa ehangach.
- Cymryd rhan mewn ymgyrchoedd a mentrau presennol a'ch ymgyrchoedd a'ch mentrau chi eich hun, a'u harwain, gan helpu i ymgysylltu â chymunedau ac ysbrydoli camau gweithredu.
- Dod yn rhanddeiliaid allweddol a phenderfynwyr ar brosiectau a arweinir gan ieuenctid.
- Siarad â chydweithwyr am sut allent wneud eu gwaith yn fwy ystyriol o ieuenctid, er mwyn iddo apelio at gynulleidfaoedd ifanc newydd ac amrywiol.

## TU ALLAN I WWF

- Ymgysylltu â phobl ifanc o sefydliadau tebyg mewn rolau tebyg a gweithio gyda'ch gilydd ar brosiectau ac ymgyrchoedd cyffrous, er mwyn cael yr effaith fwyaf posibl.
- Mynychu digwyddiadau a siarad am waith WWF ynddynt, a rhaglen Llysgenhadon Ieuenctid WWF yn arbennig.
- Rhoi gwybod i'ch cyfoedion yn eich cymunedau lleol a'u hysgogi, er mwyn iddynt deimlo wedi'u grymuso i gymryd rhan mewn ymdrechion i amddiffyn yr amgylchedd.

# SUT I WNEUD CAIS

## Cam 1 – Cyflwyno cais ar-lein
## DYDDIAD CAU:
## Dydd Mawrth 19 Tachwedd 2024, 23.59

Cwblhewch ffurflen gais fer ar lein a fydd yn cipio eich manylion personol a'ch atebion i'r cwestiynau canlynol:

---

**1.** Beth hoffech chi ei gyflawni yn eich rôl fel Llysgennad Ieuenctid?

---

**2.** Sut mae eich gwerthoedd eich hun yn alinio â gwerthoedd WWF (Dewrder, Uniondeb, Parch, Cydweithredu)? Allwch chi roi enghraifft o achos lle dangosoch chi un o'n gwerthoedd ni?

---

**3.** Allwch chi roi enghraifft o achos lle dangosoch chi sgiliau gweithio fel tîm?

---

Os cewch chi eich gwahodd am gyfweliad, bydd angen arnoch enwi rhywun y gallwch chi ei ddefnyddio i roi geirda i chi – gallai hwn fod yn rhiant, athro/athrawes neu arweinydd ieuenctid. Meddyliwch am bwy allai hwn fod, a gwiriwch ei fod yn hapus i roi geirda i chi!

**DOLEN I'R FFURFLEN GAIS**
**wwf.org.uk/form/youth-ambassador-recruitment**



© Ernie Janes / naturepl.com / WWF

## Cam 2 – Cyfweliadau grŵp
## DYDDIAD:
## Wythnos yn cychwyn 25 Tachwedd 2024

Os gyrhaeddwch chi'r rhestr fer, byddwch yn cael eich gwahodd i fynychu cyfweliad grŵp rhithiol, gyda hyd at bedwar person ifanc arall.

Yn ystod y cyfweliad hwn, byddwn yn edrych ar ba mor dda y gallwch chi gydweithio â phobl eraill, i weithio trwy her a chyrraedd datrysiad. Bydd gweithgaredd grŵp, a ddyluniwyd i roi blas ichi o'r tasgau y gallech chi ymgymryd â hwy fel Llysgennad Ieuenctid, yn caniatáu inni weld sut rydych chi'n cyfranogi ato. Nid yw'n ymwneud â bod yn uchel eich cloch neu fod â'r nifer fwyaf o syniadau, ond yn hytrach sut rydych chi'n gweithio o fewn y grŵp.

Byddwn hefyd yn gofyn ychydig o gwestiynau i orffen, a fydd yn ein galluogi ni i glywed mwy am eich sgiliau a'ch profiad. Bydd y cwestiynau hyn yn ein helpu ni i edrych ar y sgiliau canlynol (felly mae'n syniad da ichi baratoi ychydig o enghreifftiau ar gyfer pob un ymlaen llaw):

- Gwaith tîm a chydweithredu
- Gwneud penderfyniadau
- Datrys problemau'n greadigol

Byddwn yn anfon briff llawn o'r hyn i'w ddisgwyl atoch cyn y sesiwn grŵp, er mwyn osgoi unrhyw beth annisgwyl ar y dydd!

## Bydd yr ymgeiswyr llwyddiannus yn cael gwybod erbyn Dydd Llun 2 Rhagfyr

Rydym yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi'n fawr yr amser a gaiff ei dreulio'n ymgeisio am y rôl hon. Rydym yn ymrwymo i roi adborth datblygiadol, byr i unrhyw un sy'n aflwyddiannus ar ôl y cam cyfweliad, i'ch cefnogi chi i wneud ceisiadau yn y dyfodol.

# DYDDIADAU I'W NODI YN Y DYDDIADUR


© SCOTLAND: The Big Picture / naturepl.com / WWF

Byddwn yn cynnal ein cyfarfod cyntaf ar-lein y gallwch chi ei fynychu ar nos Dydd **Mercher 18 Rhagfyr (5–6 yr hwyr) 2024**

Cynhelir y arhosiad preswyl mewn person nesaf ar **18–20 Chwefror 2025**

Os bydd angen arnoch unrhyw addasiadau rhesymol neu gymorth yn ystod unrhyw gam o'r broses ymgeisio, anfonwch neges e-bost at **youth@wwf.org.uk** a byddwn yn hapus i'w trafod nhw gyda chi.

Rydym yn croesawu'n arbennig ceisiadau gan unigolion o gymunedau ethnig heb gynrychiolaeth ddigonol ar hyn o bryd a'r rhai sy'n ystyried ei hun yn wrywaidd. Dylech nodi dim ond nifer gyfyngedig o gyfweliadau (10) y gallwn ni eu cynnig. Os byddwn yn derbyn nifer fawr o geisiadau, byddwn yn blaenoriaethu rhoi cyfweliad i ymgeiswyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol sy'n bodloni meini prawf sylfaenol y rôl, yn hytrach na'r holl ymgeiswyr sy'n bodloni'r meini prawf hynny. Mae hyn er mwyn sicrhau proses ddethol deg sy'n cefnogi ein hymrwymiadau o ran amrywiaeth, tegwch a chynhwysiant.

# MWY O WYBODAETH

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y broses ymgeisio hon, neu ein gwaith gyda phobl ifanc, anfonwch neges e-bost at: **youth@wwf.org.uk**

Cofrestrwch i dderbyn ein cylchlythyr
Polisi Diogelu
Polisi Cyfrinachedd



WWF
Symbol panda ©1986 a Nod Masnach Gofrestredig WWF ®"WWF". Mae WWF-UK yn elusen gofrestredig (1081247) ac yn yr Alban (SC039593). Cwmni cyfyngedig drwy warrant (4016725)